# Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

## Adroddiad (SLC(3) 18-08)

Dyddiad: 15 Gorffennaf 2008
Amser: 8.45am
Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 2, y Senedd

### Cynnwys

Cyfarfu'r pwyllgor ar 15 Gorffennaf 2008. Roedd yr Aelodau pwyllgor a ganlyn yn bresennol yn y cyfarfod: Dr Dai Lloyd AC, Eleanor Burnham AC, Andrew RT Davies AC, Alun Davies AC, Joyce Watson AC.

Mae adroddiadau'r pwyllgor i'r Cynulliad fel a ganlyn:

### Offerynnau ac offerynnau drafft na fydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i roi sylw arbennig iddynt o dan Reol Sefydlog 15.2

#### Offerynnau sy'n agored i gael eu dirymu yn unol â phenderfyniad gan y Cynulliad (y weithdrefn negyddol)

#### SLC175 - Rheoliadau Deunyddiau ac Eitemau Plastig mewn Cyffyrddiad â Bwyd (Cymru) (Rhif 2) 2008

Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 27 Mehefin 2008. Fe'u gosodwyd ar 27 Mehefin 2008. Yn dod i rym ar: at ddiben rheoliad 30(a) - 30 Mehefin 2008; at bob diben arall - 1 Gorffennaf 2008.

#### SLC176 - Rheoliadau Deddf Gofal Plant 2006 (Darparu Gwybodaeth) (Cymru) (Diwygio) 2008

Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 28 Mehefin 2008. Fe'u gosodwyd ar 1 Gorffennaf 2008. Yn dod i rym ar 31 Gorffennaf 2008.

#### SLC178 - Rheoliadau Addysg (Datgymhwyso Cwricwlwm Cenedlaethol Cymru yng Nghyfnod Allweddol 1) (Cymru) 2008

Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 1 Gorffennaf 2008. Fe'u gosodwyd ar 3 Gorffennaf 2008. Yn dod i rym - yn unol â rheoliad 1(2).

#### SLC179 - Rheoliadau Addysg (Y Diwrnod Ysgol a'r Flwyddyn Ysgol) (Cymru) (Diwygio) 2008

Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 1 Gorffennaf 2008. Fe'u gosodwyd ar 3 Gorffennaf 2008. Yn dod i rym ar 1 Awst 2008.

#### SLC180 - Gorchymyn Addysg (Cwricwlwm Cenedlaethol) (Targedau Cyrhaeddiad a Rhaglenni Astudio) (Cymru) (Diwygio) 2008

Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 5 Gorffennaf 2008. Fe'u gosodwyd ar 8 Gorffennaf 2008. Yn dod i rym ar 1 Awst 2008.

### Offerynnau y bydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i roi sylw arbennig iddynt o dan Reol Sefydlog 15.2

#### Offerynnau sy'n agored i gael eu dirymu yn unol â phenderfyniad gan y Cynulliad (y weithdrefn negyddol)

#### SLC177 - Gorchymyn Addysg (Y Cwricwlwm Cenedlaethol) (Y Cyfnod Sylfaen) (Cymru) 2008

Y weithdrefn negyddol. Fe'i gwnaed ar 1 Gorffennaf 2008. Fe'i gosodwyd ar 3 Gorffennaf 2008. Yn dod i rym - yn unol ag erthygl 1(2).

Ceir Adroddiad y pwyllgor o dan Reol Sefydlog 15.2 ar Offerynnau Statudol sy'n agored i gael eu dirymu yn unol â phenderfyniad gan y Cynulliad (y weithdrefn negyddol) yn Atodiad 1 i'r Adroddiad hwn.

### Eitemau eraill o fusnes

Trafododd yr Aelodau y broses o fonitro canlyniadau adroddiadau'r pwyllgor ar is-ddeddfwriaeth o dan Reolau Sefydlog 15.2 - 15.6. Cytunwyd y byddai canlyniadau'r adroddiadau'n cael eu hadolygu'n flynyddol, a hynny er mwyn asesu pa mor effeithiol yw'r gwaith craffu. Cytunodd y pwyllgor ysgrifennu at y Cwnsler Cyffredinol i gael gwybod am unrhyw gamau sydd heb eu cymryd a nodwyd yn ymatebion Llywodraeth Cynulliad Cymru i adroddiadau'r pwyllgor, er mwyn galluogi'r broses fonitro i fynd rhagddi. Cytunodd y pwyllgor hefyd y dylai'r adroddiad nodi unrhyw themâu sy'n codi o'r pwyntiau adrodd a gyflwynwyd yn ystod y flwyddyn.

Dr Dai Lloyd AC
Cadeirydd y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth
15 Gorffennaf 2008

# Atodiad 1

# Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

# (SLC(3)-18-08)

### SLC177

### Adroddiad y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

O dan Reol Sefydlog 15.2 bydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i roi sylw arbennig i'r offeryn a ganlyn

### Teitl: Gorchymyn Addysg (Y Cwricwlwm Cenedlaethol) (Y Cyfnod Sylfaen) (Cymru) 2008

Mae'r Gorchymyn hwn yn darparu ar gyfer cyflwyno'r cyfnod sylfaen ar gyfer disgyblion yng Nghymru fesul cam. Cyflwynir y cyfnod sylfaen ar gyfer blwyddyn gyntaf y cyfnod sylfaen ar 1 Awst 2008, ar gyfer ail flwyddyn y cyfnod sylfaen ar 1 Awst 2009, ar gyfer trydedd flwyddyn y cyfnod sylfaen ar 1 Awst 2010 ac ar gyfer pedwaredd flwyddyn y cyfnod sylfaen ar 1 Awst 2011. Mae'r Gorchymyn hwn hefyd yn pennu cyfnod y cyfnod sylfaen ac yn rhoi effaith gyfreithiol i'r meysydd dysgu, sy'n gosod y canlyniadau dymunol a'r rhaglenni addysgol.

### Gweithdrefn: Negyddol

Nodwyd y pwyntiau a ganlyn i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 15.2.

1. Mae testun Cymraeg erthygl 3(1) yn ddiffygiol. Diben y testun yw rhoi ei effaith i ddarpariaethau sy'n nodi meysydd dysgu, canlyniadau dymunol a rhaglenni addysgol yn y cyfnod sylfaen. Yn ôl y drafft presennol, nid yw geiriad y testun Cymraeg yn cyflawni ei nod, ac nid yw'n cyfateb i'r testun Saesneg gan fod un geiriad allweddol ar goll ar ddechrau'r erthygl. Gellid datrys y broblem drwy gyfnewid "Mae'r" am "Y" ar ddechrau pob erthygl. Argymhellir cywiro'r diffyg hwn cyn gynted â phosibl.

[Rheol Sefydlog 15.2 vi a vii]

Dr Dai Lloyd AC
Cadeirydd y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth
15 Gorffennaf 2008

### Mae'r Llywodraeth wedi ymateb fel a ganlyn:-

Mae'r Llywodraeth yn cytuno â'r pwynt adrodd a bydd yn gwneud deddfwriaeth i gywiro'r gwall o fewn 6 mis i ddyddiad cychwyn y Rheoliadau.